



Ffurflen Adborth

Ymgynghoriad ar Dir Ychwanegol

Rydyn ni bellach bron wedi gorffen y gwaith o baratoi ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer Wylfa Newydd. Fel rhan o'n gwaith helaeth, rydyn ni'n mireinio manylion terfynol y tir y bydd ei angen arnon ni.

Mae'r ffurflen yma yn gyfle i chi roi eich adborth ar y cynigion hyn. Mae'r adborth yn chwarae rhan hollbwysig er mwyn ein helpu i siapio ein cynlluniau.

Gallwch anfon eich adborth drwy'r dulliau canlynol:

- drwy ateb y cwestiynau dros y dudalen a rhoi'r ffurflen hon yn y bocs adborth yn ein digwyddiadau, neu drwy ei hanfon i **Freepost WYLFA NEWYDD**
- drwy ysgrifennu atom yn ein cyfeiriad Rhadbost uchod
- drwy anfon neges e-bost atom yn **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**

Cyflwynwch eich adborth erbyn 16 Chwefror 2018 os gwelwch yn dda

Amdanoch chi (llenwch yr adran hon mewn prif lythrennau gan ddefnyddio inc du neu las):

Teitl:	Enw cyntaf:
Cyfenw:	
Grŵp oedran:	<input type="checkbox"/> dan 25 oed <input type="checkbox"/> 25 - 40 <input type="checkbox"/> 41 - 60 <input type="checkbox"/> dros 60 oed
Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad:	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw
Os ydych chi, rhowch enw'r sefydliad:	
Teitl eich swydd:	
Cyfeiriad:	
Tref / Pentref:	Cod post:
Cyfeiriad e-bost:	

Datganiad Diogelu Data

Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn cael ei rhannu gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited â darparwyr, contractwyr neu gynghorwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau i ni, a bydd yn cael ei defnyddio ar y cyd gyda'r ceisiadau cynllunio dilynol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Efallai bydd copiau'n cael eu darparu, maes o law, i'r awdurdod cynllunio perthnasol er mwyn iddo allu nodi eich sylwadau. Serch hynny, byddwn yn gofyn iddo beidio â rhoi eich manylion personol ar gofnod cyhoeddus. Bydd eich manylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited a'r darparwyr, y contractwyr neu'r cynghorwyr trydydd parti hynny sy'n darparu gwasanaethau i ni yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

1. Rydyn ni'n cynnig creu neu wella safleoedd gwlyptir newydd ar Ynys Môn i wneud iawn am unrhyw effaith bosibl y gallen ei chael ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y safleoedd sy'n cael eu cynnig neu'r gwaith sy'n cael ei awgrymu yn Nhŷ Du, Cors Gwawr a Chae Canol-dydd? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.

2. Rydyn ni wedi ymestyn Terfynau'r Gorchymyn (y ffiniau ar gyfer yr holl dir fydd ei angen arnom) ar ochr orllewinol ffin ein safle Wylfa Newydd i ddarparu lle i ddwy ardal wella ecolegol newydd rydyn ni wedi'u creu ym Mynydd-Ithel a Phen Carreg. Mae angen i ni hefyd wneud mân newidiadau i'n cysylltiad ag is-orsaf y National Grid yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynigion hyn?

3. Rydyn ni rŵan wedi cadarnhau Terfynau'r Gorchymyn (y ffiniau ar gyfer yr holl dir fydd ei angen arnom) ar gyfer adrannau newydd o'r A5025 rhwng y Fali a safle Wylfa Newydd.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.

4. Mae angen i ni wneud mân addasiadau i ffiniau ein Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn Llanfaethlu, a Chanolfan Logisteg ym Mharc Cybi.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar hyn? Nodwch pa leoliad rydych chi'n cyfeirio ato.

5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill sy'n ymwneud â'n cynigion ar gyfer y tir y byddwn ni ei angen er mwyn adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd?

Os felly, rhowch y sylwadau hynny isod.

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen adborth hon.

Byddwn yn adolygu'r holl adborth a gawn a byddwn yn ei ddefnyddio, pan fydd hynny'n bosibl, i siapio datblygiad parhaus ein cynigion.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am Brosiect Wylfa Newydd, gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd drwy'r dulliau canlynol:



ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com



www.horizonnuclearpower.com/hafan



0800 954 9516



Dewch o hyd i ni ar LinkedIn



@HorizonNuclear



horizonnuclear



'Horizon Nuclear Power'

Bydd Pŵer Niwclear Horizon a'i asiantau'n prosesu ac yn storio eich manylion personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr orsaf bŵer newydd arfaethedig yn Wylfa.



Cofiwch ailgylchu